# Adolygiad Annibynnol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe

PC828D002 v1.0

26 Chwefror 2019

# Crynodeb Gweithredol

**Cyflwyniad**

Yn mis Ionawr 2019, cafodd Actica Consulting Ltd ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) i gynnal Adolygiad cyflym, yn cael ei arwain yn annibynnol, o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe[1] sy'n werth £1.3 biliwn. Pwrpas yr Adolygiad oedd darparu asesiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r gallu i gyflawni'r Fargen.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ysgogydd pwysig iawn i economi Cymru a'r DU. Mae gan y rhanbarth ganolfannau trefol cryf sy'n cael eu hategu gan dirwedd wledig ehangach ac ôl troed arfordirol sylweddol sydd wedi creu proffil economaidd amrywiol â nifer o gyfleoedd a heriau.

Nod y Fargen Ddinesig yw darparu ffyrdd newydd o weithio ac adnoddau i'r rhanbarth a'i bartneriaid i'w galluogi i sicrhau twf economaidd sylweddol ym mhob rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi ar y cyd, yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn ar gyfer yr 11 prosiect sy'n rhan o'r Fargen. Mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn amodol ar gytundeb ar drefniadau'r llywodraeth ar gyfer y Fargen i gefnogi ac adeiladu ymhellach ar gryfderau'r Rhanbarth, sy'n cynnwys iechyd, ynni a gweithgynhyrchu: yn seiliedig ar seilwaith digidol o'r radd flaenaf, prifysgolion llwyddiannus a byrddau iechyd arloesol. Roedd Penawdau Telerau'r Fargen – a lofnodwyd ar 20 Mawrth 2017 gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phob un o'r 4 Awdurdod Lleol Rhanbarthol – yn ymrwymo'r Llywodraethau i ariannu'r Fargen ar y cyd, â chyfanswm o £241 miliwn (£125.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £115.6 miliwn gan Lywodraeth y DU) dros gyfnod o 15 mlynedd er mwyn sicrhau 9,000 o swyddi newydd a rhoi hwb o £1.8 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros. Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid lleol o'r sector preifat a chyhoeddus hefyd yn cyfrannu cyllid. Gobeithir y bydd cyfanswm y cyllid o bob ffynhonnell yn ystod y cyfnod oddeutu £1.3 biliwn.

**Canfyddiadau'r Tîm Adolygu**

Mae'r Tîm Adolygu yn ffyddiog bod y ddwy Lywodraeth wedi ymrwymo i lwyddiant y Fargen Ddinesig. Gwelwn hefyd fod Partneriaid Rhanbarthol yn buddsoddi er mwyn darparu portffolio o raglenni sy'n gydnaws â meddylfryd canlyniadau Penawdau'r Telerau. Rydym yn argyhoeddedig y bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael effaith gadarnhaol ar y rhanbarth. Mewn portffolio iach, gwelwn y bydd rhaglenni a phrosiectau'n esblygu, ac mewn rhai achosion yn newid yn sylweddol, wrth i amgylchiadau newid. Bydd rhai'n llwyddo ac eraill yn methu. Wrth i sylw gael ei roi i faterion yn ymwneud ag arbenigedd a rheolaeth annibynnol awdurdodol credwn y bydd y berthynas rhwng y partïon yn aeddfedu, gan arwain at fwy o gydweithredu a phroses fwy slic sy'n canolbwyntio mwy ar gyflawni canlyniadau yn gyflym. Mae'n bwysig iawn bod cyllid yn cael ei ymrwymo yn y tymor byr: i roi hyder i bob parti ac er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r risg ariannol i'r Awdurdodau Lleol o hyd. Yn y tymor hwy, bydd y portffolio'n cryfhau wrth i'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Fargen Ddinesig gael eu harchwilio ymhellach.

Mae'r adroddiad yn gwneud 7 argymhelliad er mwyn gwella'r gallu i gyflawni canlyniadau'r Fargen ac maent i'w gweld yn y tabl isod.

[1] Dyfarniad Contract C299/2018/2019 dyddiedig 10 Ionawr 2019: Contract i gychwyn ar 14 Ionawr 2019.

| Rhif | Argymhelliad | Faint o frys |
|---|---|---|
| 1 | Dylid annog craffu ymlaen llaw, ond mae cyswllt wyneb yn wyneb uniongyrchol a rheolaidd rhwng y rhai sy'n ysgrifennu'r Achosion Busnes a'r rhai sy'n gwneud sylwadau arnynt ac yn cynghori'r rhai a fydd yn eu cymeradwyo yn hanfodol. | Brys<br>erbyn diwedd mis Mawrth 2019 |
| 2 | Dylai'r Swyddfa Ranbarthol gael ei dynodi'n Swyddfa Rheoli Portffolio, gan wella eu sgiliau gydag arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) profiadol. | Pwysig<br>erbyn diwedd mis Mehefin 2019 |
| 3 | **Argymhelliad 3** Dylai Tîm y Fargen Ddinesig (â chymorth Canolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn ôl y galw) sefydlu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) ar gyfer y Portffolio i nodi'r arferion gorau. Dylai pob parti roi ystyriaeth benodol i broses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel rhan allweddol o'r cynllun hwnnw. | Pwysig<br>erbyn diwedd mis Mawrth 2019 |
| 4 | Dan gadeiryddiaeth y Cyd-bwyllgor Craffu dylai pob bwrdd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe ystyried ei gylch gorchwyl a'i ddulliau gweithio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Wrth wneud hynny dylent ystyried yr adolygiad hwn a chanlyniad yr archwiliadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. | Pwysig<br>erbyn diwedd mis Mawrth 2019 |
| 5 | Dylid penodi Cyfarwyddwr Portffolio cyn Mai 2019 er mwyn sicrhau dilyniant i arweinyddiaeth Bargen Ddinesig Bae Abertawe a sicrhau bod y Byrddau'n cael cyngor awdurdodol annibynnol. | Brys<br>erbyn diwedd mis Ebrill 2019 |
| 6 | Dylai Bargen Ddinesig Bae Abertawe gael ei rheoli fel Portffolio, ac nid fel prosiectau digyfnewid wedi'u pennu ymlaen llaw. | Pwysig<br>erbyn diwedd mis Mehefin 2019 |
| 7 | Ar gyfer Yr Egin a Glannau Abertawe, y ddau achos busnes sy'n agos at gael eu cymeradwyo'n derfynol, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol geisio dod i gasgliad yn fuan er mwyn sicrhau bod cyllid yn gallu llifo yn ôl yr angen. | Ar unwaith |

# Derbynnydd

| | Enw | Dyddiad |
|---|---|---|
| Paratowyd gan | Actica Consulting | 24/02/2019 |
| Anfonwyd i | Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | 26/02/2019 |

# Rhestr Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | | **i** |
| **Derbynnydd** | | **iii** |
| **1** | **Cyflwyniad** | **1** |
| 1.1 | Cwmpas yr Adolygiad | 1 |
| 1.2 | Methodoleg a Dull Gweithredu | 1 |
| 1.3 | Ystyriaethau | 2 |
| **2** | **Cefndir yr Adolygiad hwn** | **3** |
| 2.1 | Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe | 3 |
| 2.2 | Llinell Amser | 3 |
| **3** | **Arsylwadau, Dadansoddiad, Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Adolygiad** | **5** |
| 3.1 | Cyflwyniad | 5 |
| 3.2 | Cynnydd | 5 |
| 3.3 | Y Broses Cymeradwyo Prosiectau – Llywodraethu a Sicrwydd | 6 |
| 3.4 | Llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe | 9 |
| 3.5 | Achosion Busnes Bargen Ddinesig Bae Abertawe | 11 |
| 3.6 | Y Gallu i Gyflawni Rhaglen Bae Abertawe yn y Dyfodol | 12 |
| 3.7 | Y Ffordd Ymlaen | 13 |
| **A** | **Hyder yn y Gallu i Gyflawni Canlyniadau Arfaethedig Dinas-ranbarth Bae Abertawe** | **14** |

GADAWYD YN WAG YN FWRIADOL

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cwmpas yr Adolygiad

1.1.1 Ym mis Ionawr 2019, cafodd Actica Consulting Ltd ei gomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynnal Adolygiad cyflym gan y Llywodraeth, yn cael ei arwain yn annibynnol, o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

a. Cysoni'r prosiectau sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig ag amcanion strategol cyffredinol y Fargen, er mwyn sicrhau bod modd gwireddu'r buddion.

b. Y risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig, gan gynnwys priodoldeb y prosiectau sy'n rhan ohoni a'r gallu i'w cyflawni, gan ganolbwyntio'n fwyaf arbennig ar y rhai hynny sydd wedi cychwyn eu hoes gyflawni fel cydran gyntaf y prosiectau.

c. Y rhyngweithio rhwng strwythurau llywodraethu'r Cydbwyllgor a'r Fargen Ddinesig a'r strwythurau llywodraethu rhanbarthol er mwyn gwneud argymhellion yn ymwneud â darparu sicrwydd cadarn.

d. Yr arferion diwydrwydd dyladwy sy'n cael eu gweithredu ar y gydran gyntaf o brosiectau ac a yw'r rhain wedi cael y lefel briodol o sicrwydd ariannol.

1.1.2 Roedd yr Adolygiad i fod i ddarparu adroddiad ar y cyd i'r ddwy Lywodraeth cyn pen chwe wythnos waith, gan gydnabod cydbwysedd rhwng brys a bod yn gynhwysfawr.

1.1.3 Gofynnwyd i'r Tîm Adolygu wneud unrhyw argymhellion a fyddai'n gwella'r gallu i gyflawni canlyniadau'r Fargen.

1.1.4 Nodwyd y dylai'r Adolygiad ddarparu argymhellion penodol i'w gweithredu, ond y byddai pob penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidogion neu'r Cyd-bwyllgor fel y bo'n briodol.

1.1.5 Yn olaf, hysbyswyd y Tîm Adolygu nad oedd datblygu'r Achos Busnes, argymell unrhyw Achos Busnes Achos unigol ar gyfer rhyddhau cyllid nac ystyried prosiectau amgen yn rhan o gwmpas yr Adolygiad.

## 1.2 Methodoleg a Dull Gweithredu

1.2.1 Mabwysiadodd y Tîm Adolygu ddull gweithredu tri cham yn seiliedig ar dechnegau adolygiad gan gymheiriad sefydledig, annibynnol, y profwyd eu bod yn gweithio, yn cynnwys camau Darganfod, Dadansoddi ac Allbwn.

1.2.2 Darganfod: Cyfnod o ddysgu ac ymgysylltu yn cynnwys cyfarfod cychwynnol, darllen dogfennau rhaglenni ymlaen llaw a Chyfweliadau gyda Rhanddeiliaid.

1.2.3 Dadansoddi: Cyfnod o fyfyrio ar ganfyddiadau'r cam Darganfod, gan groesgyfeirio tystiolaeth y cyfweliadau ag asesiad trylwyr o'r prosesau a'r gweithdrefnau a gofnodwyd i sicrhau nad oes rhagfarn neu ddiffyg dealltwriaeth. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd i fod i fyfyrio ar y broses ymarferol o gyflawni canlyniadau'r rhaglen a'r dulliau llywodraethu.

1.2.4 Allbwn: Dod â'r canfyddiadau a'r argymhellion at ei gilydd mewn adroddiad yn seiliedig ar y prif gwestiynau a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl, a chyhoeddi'r adroddiad terfynol ar lefel Weinidogol.

1.2.5 Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad terfynol yn giplun seiliedig ar dystiolaeth o statws y rhaglenni ar adeg yr adolygiad.

## 1.3 Ystyriaethau

1.3.1 Mae angen deall ac ystyried casgliadau ac argymhellion yr Adolygiad yng nghyd-destun ei gwmpas a'i fethodoleg gyfyngedig a'r ffaith nad oedd llawer o amser i sicrhau diwydrwydd dyladwy. Mae ei Argymhellion yn cael eu graddio ar sail 'Ar Unwaith' (gwneud nawr), 'Brys' (gwneud erbyn…), a 'Pwysig' (gwneud erbyn…). Er mwyn sicrhau ffocws pendant rydym wedi cyfyngu ar nifer yr argymhellion. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o welliannau cynyddrannol a rhai argymhellion ymhlyg y byddem yn disgwyl i'r Cyfarwyddwr Portffolio a thîm â phrofiad priodol eu rhoi ar waith fel rhan o'r busnes arferol.

1.3.2 Hoffai'r Tîm Adolygu ddiolch i'r holl randdeiliaid a ddaeth i gyfweliad am eu cymorth ac am fod yn agored. Mae hynny wedi cyfrannu tuag at ddealltwriaeth y Tîm Adolygu o'r Rhaglen ac o ganlyniad yr Adolygiad hwn. Diolch yn arbennig i Ysgrifenyddiaeth Swyddfa Ranbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe am reoli'r logisteg allweddol ar gyfer yr adolygiad a chydlynu'r broses gyfweld Ranbarthol.

1.3.3 Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad hwn yn edrych ymlaen yn hytrach nag yn ôl ac yn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd (ac o ganlyniad y camau y gellid eu cymryd) gan bob parti er mwyn mynd â'r Fargen Ddinesig yn ei blaen. Mae awgrymiadau ar gyfer gwelliant gan Randdeiliaid, yn seiliedig ar eu profiad o'r Fargen Ddinesig yn ddiweddar, wedi bod yn sail i'n hargymhellion.

1.3.4 Hoffai'r Tîm Adolygu hefyd bwysleisio mai adolygiad annibynnol a gwrthrychol yw hwn, ac nid archwiliad. Nid yw mewn unrhyw ffordd yn ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r cyhoeddusrwydd o amgylch y rhaglen Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant a gynhaliwyd yn ddiweddar, sy'n destun archwiliad mewnol gan y Brifysgol a'r Awdurdodau Lleol, ac archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

# 2 Cefndir yr Adolygiad hwn

## 2.1 Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe

2.1.1 Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ysgogydd pwysig iawn i economi Cymru a'r DU. Mae gan y rhanbarth ganolfannau trefol cryf sy'n cael eu hategu gan dirwedd wledig ehangach ac ôl troed arfordirol sylweddol sydd wedi creu proffil economaidd amrywiol â nifer o gyfleoedd a heriau.

2.1.2 Nod y Fargen Ddinesig yw darparu ffyrdd newydd o weithio ac adnoddau i'r rhanbarth a'i bartneriaid i'w galluogi i sicrhau twf economaidd sylweddol ym mhob rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae'n Fargen lle mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i fuddsoddi ar y cyd, yn amodol ar gyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn ar gyfer yr un ar ddeg o brosiectau a nodwyd a chytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y fargen. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £241 miliwn o gyllid gan y ddwy lywodraeth er mwyn ysgogi rhagor o gyllid o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ar gyfer ymyriadau penodol sy'n ceisio cefnogi a datblygu cryfderau'r rhanbarth, sy'n cynnwys y sectorau iechyd, ynni a gweithgynhyrchu, ac sy'n seiliedig ar seilwaith digidol o'r radd flaenaf, prifysgolion llwyddiannus a byrddau iechyd arloesol. Mae'r Fargen Ddinesig wedi'i strwythuro o gwmpas un ar ddeg o brosiectau sy'n cael eu cynnig, ar sail pedair thema, â buddsoddiad sylweddol yn seilwaith digidol y rhanbarth a'r gweithlu, sgiliau a'r gallu sy'n sail i bob un.

2.1.3 Mae'r Fargen yn gyfle i ddal i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal twf economaidd yn yr ardal drwy: ddatblygu sectorau gwerth uwch a chyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch i gyd-fynd â hynny; cynyddu nifer y busnesau yn y sectorau hyn er mwyn ehangu'r sail economaidd; a gwella Gwerth Ychwanegol Gros y rhanbarth o'i gymharu â chyfartaledd y DU.

2.1.4 Yn ogystal â hybu prosiectau a rhaglenni i ysgogi twf economaidd, mae'r Fargen Ddinesig yn ymrwymo arweinwyr lleol a phartneriaid i weithredu arweinyddiaeth effeithiol ar draws y Ddinas-ranbarth. Wrth gytuno ar y fargen hon, mae arweinwyr y pedwar awdurdod lleol yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe wedi cytuno i greu ac wedi sefydlu Bwrdd Strategaeth Economaidd rhanbarthol a Chyd-bwyllgor i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Fargen Ddinesig hon.

2.1.5 Mae partneriaid lleol yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe yn amcangyfrif y bydd y Fargen Ddinesig hon yn arwain at:

a. Bron i £1.3 biliwn o gyllid ar gyfer ymyriadau i gefnogi twf economaidd;

b. Ysgogi dros £600 miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat er mwyn cyflawni ymyriadau;

c. Taenu'r buddsoddiad ar draws y rhanbarth cyfan er mwyn sicrhau bod pob ardal a phob dinesydd yn cael budd;

d. Cynnydd cyffredinol i'r economi o dros 9,000 o swyddi uniongyrchol gros;

e. Cyfraniad o £1.8 biliwn i werth ychwanegol gros y rhanbarth.

## 2.2 Llinell Amser

2.2.1 Cyhoeddodd Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe ei weledigaeth mewn dogfen yn dwyn y teitl 'Arfordir y Rhyngrwyd' ym mis Chwefror 2016. Yn fuan wedyn, ym mis Mawrth 2016,

dechreuodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drafod y posibilrwydd o gael Bargen Ddinesig i'r rhanbarth.

2.2.2 Ar 20 Mawrth 2017 llofnodwyd Penawdau'r Telerau ar gyfer Bargen Ddinesig gwerth £1.3 biliwn. Y ddogfen hon oedd sylfaen y Fargen Ddinesig ac roedd yn cadarnhau'r ymrwymiad a wnaethpwyd ar y cyd gan y pedwar awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cael ei gweithredu'n llawn. Roedd hyn yn amodol ar fodloni amodau cyllido a bennwyd gan y Llywodraeth. Roedd Penawdau'r Telerau hefyd yn cyfeirio at gasgliad ehangach o ddogfennau rheoli a llywodraethu, gan osod sylfaen i'r Fargen Ddinesig.

2.2.3 Nod y Fargen Ddinesig, yn ystod y 15 mlynedd nesaf, yw rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol. Bydd hyn yn cael ei ategu gan £125.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru, £115.6 miliwn gan Lywodraeth y DU, £396 miliwn gan y pedwar awdurdod lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill yn y rhanbarth ynghyd â £637 miliwn o'r sector preifat.

2.2.4 Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y pedwar awdurdod lleol Gytundeb y Cyd-bwyllgor. Mae'r cytundeb cyfreithiol hwn yn sefydlu'r prif strwythurau llywodraethu megis y Cyd-bwyllgor, y Bwrdd Strategaeth Economaidd a'r Pwyllgor Craffu ac yn ymrwymo'r pedwar awdurdod lleol i gydweithio dros 15 mlynedd y Fargen.

2.2.5 Sefydlwyd y Swyddfa Ranbarthol gan ddefnyddio staff wedi'u hadleoli o Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu ysgrifenyddiaeth. Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu'r swyddogaeth hon i brosiectau'r Cyngor Sir nad ydynt yn rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

2.2.6 Mae'r cyllid a ddarperir gan y Llywodraeth yn amodol ar gytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y Fargen a chyflwyno a chymeradwyo achosion busnes llawn mewn cysylltiad â'r un ar ddeg o brosiectau a nodwyd, fel y nodwyd ym Mhenawdau'r Telerau. Nid oes yr un wedi'i gyflwyno'n ffurfiol hyd yn hyn.

2.2.7 Ym mis Ionawr 2019, comisiynwyd Adolygiad cyflym ar y cyd gan y ddwy Lywodraeth yn cael ei arwain yn annibynnol, o'r trefniadau ar gyfer cyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn: canlyniad yr adolygiad sydd yn yr adroddiad hwn.

# 3 Arsylwadau, Dadansoddiad, Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Adolygiad

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r adran hon yn crynhoi Prif Arsylwadau'r Tîm Adolygu yn dilyn cyfweliadau â rhanddeiliaid, ac yn nodi argymhellion penodol ynglŷn â sut i symud ymlaen â'r rhaglen.

3.1.2 Mae Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn wynebu'r problemau a ganlyn ar hyn o bryd:

a. Canfyddiad nad yw'r Portffolio wedi gwneud digon o gynnydd ers llofnodi Penawdau'r Telerau ar 20 Mawrth 2017;

b. Mae digwyddiadau wedi codi amheuaeth ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ac wedi arwain at bryderon ehangach ynglŷn â sicrwydd a hyder yng ngallu'r Rhanbarth i gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir;

c. Bydd Awdurdodau Lleol, yng nghyswllt rhaglenni sydd wedi cychwyn yn barod yn gwbl ddidwyll, yn wynebu costau benthyca na chawsant eu rhagweld a mwy o gyfyngiadau ar eu gallu i fenthyca y flwyddyn nesaf os na fydd cyllid gan y ddwy Lywodraeth ar gael yn unol â'r disgwyl.

3.1.3 O ganlyniad, mae'r ddwy Lywodraeth, sy'n parhau â'u hymrwymiad i lwyddiant y Fargen, yn gofyn am argymhellion ymarferol y gellir eu rhoi ar waith yn y tymor byr/canolig.

## 3.2 Cynnydd

3.2.1 Canfu'r Tîm Adolygu fod rhai'n credu bod cynnydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi bod yn afresymol o araf o'i gymharu â bargeinion dinesig eraill yng Nghymru. Mae rhai wedi mynegi barn bod Penawdau'r Telerau yn anaeddfed o bosibl o gymharu â'r rhai y cytunwyd arnynt yn ddiweddarach; mae eraill wedi dadlau mai dim ond fel fframwaith llac y bwriadwyd hwy. Rydym wedi clywed bod teimladau cymysg yn nhîm rheoli'r Fargen Ddinesig yn y cyfnod cyn llofnodi Penawdau'r Telerau a bod hyn wedi achosi bwlch ar ôl llofnodi a effeithiodd ar y gwaith o lunio Cytundeb y Cyd-bwyllgor. Mae adeiladwaith y fargen hon yn wahanol i fargeinion dinesig cynharach. Mae'n seiliedig ar brosiectau, ac mae angen i bob prosiect gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r lefel gymeradwyo ychwanegol hon wedi ychwanegu lefel o ddiwydrwydd dyladwy a galw am sicrwydd, ond mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cael anhawster i roi'r sicrwydd hwnnw ac, o ganlyniad, mae'r berthynas rhwng y Fargen Ddinesig a'r ddwy Lywodraeth wedi dioddef. Mewn Bargeinion Dinesig diweddarach, yn sicr lle maent yn canolbwyntio ar un ganolfan drefol, gwelwn fod cynnydd cyflymach wedi'i wneud.

3.2.2 Ers i Benawdau'r Telerau gael eu llofnodi gan bob parti ar 20 Mawrth 2017 yn Abertawe, mae'r rhai sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig (y pedwar Awdurdod Lleol, y ddau Fwrdd Iechyd a dwy Brifysgol) ynghyd â'r ddwy Lywodraeth, dan Gytundeb y Cyd-bwyllgor, wedi sefydlu trefn Lywodraethu sy'n dderbyniol i bob un ohonynt. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r pwyllgorau Rhanbarthol - Cyd-bwyllgor, Bwrdd Strategaeth Economaidd a Bwrdd Rhaglenni - a phenodi unigolion i swyddi allweddol. Yr un pryd, roedd y partïon ar y lefel isranbarthol yn saernïo ffurf derfynol prosiectau unigol ac yn sicrhau cyfuniad pwrpasol o ffrydiau cyllido amrywiol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat: pob un yn galw am waith negodi a sicrhau cytundeb cyrff unigol

sydd â'u prosesau cymeradwyo eu hunain. Wrth i'r prosiectau aeddfedu, mae'r Awdurdodau Lleol wedi bod yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu Achos Busnes i bob prosiect sy'n dderbyniol i'r Pwyllgorau Rhanbarthol ac i'r ddwy Lywodraeth.

3.2.3 Mae'r Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd wedi cyfarfod yn ffurfiol bum a thair gwaith yn y drefn honno, ac yn y ddau gyfarfod diwethaf cymeradwywyd tri o'r un ar ddeg o brosiectau. Mae angen i'r ddwy Lywodraeth a'r Awdurdod Lleol arweiniol gytuno ar y prosiectau hyn eto.

3.2.4 Efallai fod awydd i weld cynnydd cyflymach, ond mae'r Tîm Adolygu yn credu ei bod yn ddealladwy y byddai pedwar Awdurdod Lleol, yn gweithio gyda dwy Brifysgol a dau Fwrdd Iechyd Lleol yn treulio 17 mis yn sefydlu ac yn staffio strwythur rheoli a strwythur ariannol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**3.3 Y Broses o Gymeradwyo Prosiectau – Llywodraethu a Sicrwydd**

3.3.1 Mae'n ymddangos bod y broses o gyflwyno Achosion Busnes yn ffurfiol i'r ddwy Lywodraeth, fel y nodwyd uchod, wedi achosi anhawster i bawb: yn enwedig pan oedd y broses gymeradwyo dan bwysau difrifol oherwydd yr angen canfyddedig i gael cymeradwyaeth ar frys er mwyn rhyddhau cyllid yn gyflym.

3.3.2 Mae cyflwyno model Achos Busnes Pum Achos – yn unol â chanllawiau 'Llyfr Gwyrdd' Trysorlys Ei Mawrhydi – i'r ddwy Lywodraeth yn un o'r gofynion sydd ymhlyg yn y Fargen Ddinesig hon. Nid yw'n glir i'r Tîm Adolygu pa bryd y daeth hyn yn glir i'r rhai sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig. Er bod yr Awdurdodau Lleol a'r Swyddfa Ranbarthol yn gyfarwydd â pharatoi achosion ar gyfer grantiau Ewropeaidd, arian Loteri a grantiau Llywodraeth Cymru, nid yw'n ymddangos bod cystal dealltwriaeth o ofynion y 'Model Pum Achos'.

3.3.3 Cododd pryder ynglŷn â chynnydd achosion busnes ac arweiniodd hyn at benderfyniad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Deallwn fod hyn o gymorth, ond byddem yn dadlau bod arbenigedd a phrofiad yn llawer pwysicach wrth ddrafftio achos priodol sy'n gymesur â chwmpas a risg y prosiect. Cynigiodd y ddwy Lywodraeth hefyd dderbyn copïau drafft o'r Achosion Busnes i'w cyflwyno i swyddogion yn eu Hadrannau cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol. Defnyddir y dull hwn o graffu ymlaen llaw gan lawer o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog a'r Llywodraethau Datganoledig i sicrhau llwybr esmwyth tuag at gymeradwyo Achos Busnes yn ffurfiol.

3.3.4 Nid yw wedi gweithio'n dda yn y sefyllfa hon: roedd diffyg dealltwriaeth o'r broses ar y lefel Ranbarthol ac ar y lefel isranbarthol nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael digon o eglurder a thryloywder ynglŷn â'r gweithdrefnau cymeradwyo i'w dilyn rhwng Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r ddwy Lywodraeth. Anfonwyd rhai achosion busnes ar gyfer craffu ymlaen llaw drwy'r Swyddfa Ranbarthol, ac anfonwyd eraill, heb ddilyn y broses, yn uniongyrchol o'r Awdurdod Lleol. Deallwn fod y ddwy Lywodraeth, ar ôl iddynt dderbyn yr achosion busnes, wedi'u dosbarthu i'r holl Grwpiau neu Adrannau oedd â diddordeb mewn polisi. Cafodd y sylwadau a dderbyniwyd gan y swyddogion Adrannol hynny eu coladu a'u dychwelyd. Gan nad oedd yr ymateb ffurfiol ar y cyflwyniad yn cael ei wneud nes bod pob swyddog wedi ymateb, roedd yn cymryd misoedd weithiau i gyhoeddi'r ymateb wedi'i goladu. Mewn un achos cymerodd yr ymateb dri mis i ddod yn ôl fel matrics drwy e-bost â nifer fawr o sylwadau yn adlewyrchu safbwyntiau unigol nad oedd yn ymddangos eu bod wedi cael eu gosod mewn trefn, eu cydlynu na'u blaenoriaethu. Achosodd hyn rwystredigaeth a diffyg ymddiriedaeth.

3.3.5 Mewn Bargeinion Dinesig eraill, mewn rhanbarthau eraill yn y DU, deallwn fod perthynas wyneb yn wyneb gref rhwng y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a'r timau prosiectau perthnasol o'r Rhanbarth ar y naill law a Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU, a bod cyfarfodydd â ffocws penodol i graffu ymlaen llaw ar achosion busnes ('Gweithgorau Achosion Busnes') yn digwydd yn rheolaidd. Nid yw hyn wedi bod yn digwydd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe. Cynhaliwyd ychydig o gyfarfodydd mawr rhwng partïon yn yr hydref ond nid yw'n ymddangos eu bod wedi symud y prosiectau yn eu blaenau, ac roedd y Rhanbarth a thimau prosiectau'n gorfod dibynnu ar sylwadau mewn e-bost gan feysydd polisi unigol. Roedd rhai o'r sylwadau'n debyg i "byddai o fudd i'r achos pe bai cysylltiad yn cael ei wneud â pholisi XYZ". Nid oedd y rhain yn sylfaenol i gryfder yr Achos Busnes: y cyfan roeddent yn ei wneud oedd dylanwadu ar ansawdd y testun yn hytrach na rhoi sylw i faterion meintiol Cost, Amser, Perfformiad a Risg rhaglenni/prosiectau. Gwelodd y Tîm Adolygu hefyd bod sylw'n cael ei roi i brif destun yr achos busnes, ond nid cymaint i'r atodiadau allweddol: er enghraifft, ni welodd y Tîm Adolygu unrhyw dystiolaeth bod neb wedi tynnu sylw at atodiad pwysig ar Reoli Buddion a oedd ar goll. O ganlyniad, mae Achosion Busnes Llawn 'terfynol' ond anghyflawn wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r awdurdod Cymeradwyo. Nid yw hyn yn ymarfer da, ac mae wedi arwain at sefyllfa lle nad yw Achosion Busnes yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol bwysig am fuddion, risg ac yn y blaen. Byddem yn disgwyl i wybodaeth o'r fath fod yn sail i agweddau meintiol yr Achos Busnes Llawn.

3.3.6 Er hyn, mae'n bwysig nodi bod yna hefyd rai pwyntiau perthnasol ac adeiladol iawn yn ymwneud â thriniaeth ariannol y dylai Bargen Ddinesig Bae Abertawe fod wedi'u nodi a rhoi sylw iddynt yn gynharach yn y broses arferol o ddatblygu achos busnes. Dylai'r prosiectau fod wedi cael eu herio gan y Swyddfa Ranbarthol ond ni ddigwyddodd hynny. Credwn fod hyn yn ein harwain at wraidd y broblem go iawn – sef natur y Swyddfa Ranbarthol.

3.3.7 Mae llawer yn credu mai Swyddfa Rheoli Rhaglenni yw'r Swyddfa Ranbarthol. Mae hynny'n anghywir, oherwydd Ysgrifenyddiaeth yn bennaf yw hi. Nid yw'n cynnwys arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M). Mae hon yn broblem fawr oherwydd ni all weithredu fel canolfan ragoriaeth â chyfleoedd i ddysgu gwersi ar gyfer y portffolio cyfan, na darparu cymorth a sicrwydd Rheoli Portffolio/Rhaglenni (heb gymorth allanol), na rhoi briff annibynnol i Fyrddau Bargeinion Dinesig. O ganlyniad, nid yw'r Swyddfa Ranbarthol yn gallu cyflawni'r rôl y mae llawer yn tybio a roddwyd iddi. Mae cyfuniad o'i hanallu i ddarparu haen ranbarthol o gefnogaeth, cyngor a sicrwydd ynghyd â dryswch ynglŷn â'i rôl yn ganolog i lawer o'r anniddigrwydd rydym wedi'i glywed ynglŷn â chynnydd. Mae angen haen awdurdodol o sicrwydd a chefnogaeth i'r rhaglenni unigol a hefyd i'r byrddau gwneud penderfyniadau. Credwn fod swyddfa Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau wedi'i had-drefnu ag arweinyddiaeth broffesiynol ac annibynnol gref yn allweddol. Byddai angen i'r sefydliad rhanbarthol gael rhagor o arian i gynnig gwasanaethau Swyddfa Rheoli Rhaglenni llawn. Wrth i'r hyder gynyddu bydd y ddwy lywodraeth yn gweld mwy o'r sicrwydd y mae arnynt ei angen ac ni fydd angen iddynt ymwneud cymaint â'r manylion.

3.3.8 Roedd disgwyliadau'r partïon ynglŷn â'r gweithdrefnau craffu ymlaen llaw a'r gweithdrefnau craffu go iawn yn wahanol hefyd. Roedd hyn, ynghyd â phroses ddi-drefn, yn arwain at gamddealltwriaeth, oedi, rhwystredigaeth a gweld bai. Mae craffu ymlaen llaw yn ymarfer da ond mae angen i'r broses gael ei rheoli'n ddeallus, ac mae angen iddi fod yn dryloyw ac yn gydweithredol.

3.3.9 Yn fyr, nid oedd disgwyliadau'r rhai a oedd yn darparu'r achosion busnes ar gyfer craffu ymlaen llaw yn gyson â disgwyliadau'r rhai a oedd yn eu derbyn. Nid oedd yr ymdrech i ddatrys y

broblem diffyg arbenigedd a phrofiad ar y lefel Ranbarthol drwy ddosbarthu'r achosion busnes ar gyfer sylwadau gan y ddwy Lywodraeth yn effeithiol ac mae'n debyg na allai fod yn effeithiol gan nad oedd Swyddfa Rheoli Rhaglenni Ranbarthol.

3.3.10 Mae angen i aelodau Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r ddwy Lywodraeth weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella'r broses Gymeradwyo ac yn fwyaf arbennig gwerth ychwanegol gweithgareddau craffu ymlaen llaw. Mae'r Tîm Adolygu yn deall bod cyfrifoldeb am Fargeinion Dinesig yn cael ei drosglwyddo i'r Adran Economi, Sgiliau & Adnoddau Naturiol dan y Dirprwy Gyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Tîm Adolygu yn cefnogi'r newid gan fod hyn yn symud y cyfrifoldeb o faes polisi i faes cyflawni. Er hyn, rydym yn bryderus y bydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn, a'r ad-drefnu cysylltiedig, yn tynnu sylw oddi wrth y gwaith o gymeradwyo'r ddau Achos Busnes sy'n agos iawn at gael eu cwblhau.

3.3.11 Mae'r awydd i wario 'cyllid yn ystod y flwyddyn' gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, ynghyd â'r angen i sicrhau bod cyllid Ewropeaidd, lle mae amser yn hollbwysig, yn cael ei 'gloi' mewn prosiectau unigol wedi rhoi llawer iawn o bwysau ar y prosiectau a'r cyrff cymeradwyo i weithio'n gyflym. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r pwyllgorau Rhanbarthol 'y naill ar ôl y llall' er mwyn symud yn gyflym a darparwyd achosion busnes anghyflawn i'r byrddau heb eu cylchredeg ymlaen llaw. Ni roddwyd digon o amser i Fyrddau ddarllen a deall y cynigion yn iawn ac ni ddarparwyd cyngor arbenigol annibynnol ynglŷn â'r achosion hynny. O ganlyniad, nid oeddent mewn sefyllfa i ddarparu'r math o her y byddem yn ei disgwyl fel arfer. Rydym hefyd yn bryderus bod lefel graffu fanwl (ond hyd braich) gan y ddwy Lywodraeth wedi rhoi negeseuon anghywir i Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gan roi rhyddid i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo achosion busnes yn gyflym ar y ddealltwriaeth bod y ddwy Lywodraeth yn fodlon ar y cyfan â hwy.

**Argymhelliad 1:** Dylid annog craffu ymlaen llaw, ond mae cyswllt wyneb yn wyneb uniongyrchol a rheolaidd rhwng y rhai sy'n ysgrifennu'r Achosion Busnes a'r rhai sy'n gwneud sylwadau arnynt ac yn cynghori'r rhai a fydd yn eu cymeradwyo yn hanfodol. (BRYS – erbyn diwedd mis Mawrth 2019)

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Swyddfa Ranbarthol gael ei dynodi'n Swyddfa Rheoli Portffolio, gan wella eu sgiliau gydag arbenigwyr Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) profiadol (P3M). (PWYSIG erbyn diwedd mis Mehefin 2019)

3.3.12 Ni welodd y Tîm Adolygu unrhyw dystiolaeth bod gan y Fargen Ddinesig Gynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP). Byddai hyn yn ymarfer da. Byddai cymhwyso proses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn ymarfer da hefyd. Mae'r broses hon sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol yn bodoli er mwyn rhoi sicrwydd allanol i Lywodraethau ac Adrannau, ac mae wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru ar ei phrosiectau seilwaith mawr ei hun a rhai Awdurdodau Lleol (e.e. Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Ysgolion yr 21ain Ganrif) drwy Ganolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru. Er hyn, ni allai'r Tîm Adolygu weld unrhyw dystiolaeth bod y broses wedi cael ei defnyddio yn unrhyw ran o bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe hyd yn hyn. Gall Canolfan Sicrwydd Llywodraeth

Cymru drefnu adolygiadau, yn ddelfrydol yn unol â Chynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig, ond os oes angen, heb lawer iawn o rybudd. Ymhlith pethau eraill, byddai hyn yn rhoi Asesiad Hyder Cyflawni annibynnol a gwrthrychol i'r ddwy Lywodraeth ar gyfer pob rhaglen/prosiect sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, neu yn wir ar gyfer portffolio cyfan y Fargen. Mae'r dull gweithredu yn werthfawr ar adegau Cymeradwyo pwysig (megis Achos Busnes Amlinellol, Achos Busnes Llawn) ond mae hefyd o fudd sylweddol pan mae'n cael ei ddefnyddio drwy gydol Achos Busnes. Mae Adolygiadau gan Gymheiriaid hefyd yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n ymwneud â Bargeinion Dinesig eraill sydd ar y blaen mewn rhannau eraill o'r DU rannu eu gwybodaeth. Byddem yn tybio mai cyfrifoldeb y Swyddfa Ranbarthol fyddai hyn.

**Argymhelliad 3** Dylai Tîm y Fargen Ddinesig (â chymorth Canolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn ôl y galw) sefydlu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) ar gyfer y Portffolio i nodi'r arferion gorau. Dylai pob parti roi ystyriaeth benodol i broses Adolygiad Gateway™ Swyddfa Masnach y Llywodraeth fel rhan allweddol o'r cynllun hwnnw. (PWYSIG – erbyn diwedd mis Mawrth 2019)

## 3.4 Llywodraethu Bargen Ddinesig Abertawe

3.4.1 Mae'r Tîm Adolygu yn nodi bod pob parti wedi mynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â llywodraethu yn ddiweddar yng nghyswllt y rhaglen Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant. Mae'r mater hwn wedi cael blaenoriaeth uchel gan y Rhanbarth a ddaeth â'r Cyd-bwyllgor Craffu at ei gilydd ym mis Rhagfyr 2018 ac sydd wedi penodi tîm archwilio rhanbarthol mewnol yn cynnwys aelodau o'r pedwar Awdurdod Lleol i ymchwilio i'r mater. Mae'r Brifysgol yn cynnal ymchwiliad ac mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi sefydlu ymchwiliad. Rydym yn cydnabod y gall gymryd peth amser i adfer hyder y cyhoedd. Wedi dweud hynny, mae'r Tîm Adolygu yn nodi bod y cyhoeddusrwydd presennol yn ymwneud â gweithredoedd honedig unigolion. Hyd yn hyn nid ydym wedi clywed tystiolaeth bod yr honiadau hyn yn tanseilio hanfodion busnes y prosiect penodol hwnnw ac yn sicr, credwn na ddylent danseilio'r gwaith o gyflawni canlyniadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn ei chyfanrwydd. Rydym yn awgrymu y dylai gweithredu'r argymhellion rydym yn eu gwneud yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag unrhyw ganfyddiadau archwilio, ddarparu sail ar gyfer hyder mewn llywodraethu yn y dyfodol.

3.4.2 Mae ffyrdd y pwyllgorau o weithio yn esblygu. Rydym wedi trafod opsiynau gyda'r aelodau ond nid ydym yn teimlo y byddai'n fuddiol ar hyn o bryd i ni eu cyfeirio at ateb – yn enwedig gan nad yw canlyniadau'r ymchwiliadau archwilio wedi'u cyhoeddi eto. Yn ein barn ni, er mwyn cyflawni busnes yn effeithlon, mae pwyllgorau bach yn well na rhai mawr a byddai'n well peidio â dyblygu aelodaeth. Rydym yn bryderus bod lefel yr her yn y Fargen Ddinesig yn isel, ac yn fwyaf arbennig nad oes cymhelliant i aelodau'r Cyd-bwyllgor brofi cynigion ei gilydd mewn ffordd gadarn. Pan mae un pwyllgor yn cynghori un arall dylid cael digon o amser rhwng y pwyllgorau hynny i'r cyngor gael ei ystyried a'i drafod yn ôl y galw. Yn ogystal, mae trywydd archwilio cymeradwyo yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd drwy archwilio cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau cymeradwyo. Efallai y byddai'n symlach ac yn fwy tryloyw i bob Achos Busnes Llawn gael Taflen Gymeradwyo gysylltiedig i'w llofnodi gan y personau awdurdodedig gan nodi'r dyddiad arni.

3.4.3 Yn olaf, gan nad oes gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd lawer o adnoddau, credwn na ddylai eu hamser yn ystyried materion strategol gael ei lastwreiddio gan yr ystyriaeth fanwl o'r achosion busnes terfynol. Yn hytrach, dylai eu rôl ganolbwyntio, yn unol â'r bwriad gwreiddiol o'r hyn a ddeallwn ni, ar nodi cyfleoedd, a darparu gwybodaeth a chyngor sector preifat.

**Argymhelliad 4:** Dan gadeiryddiaeth y Cyd-bwyllgor Craffu dylai pob bwrdd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe ystyried ei gylch gorchwyl a'i ddulliau gweithio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd iddynt wneud. Wrth wneud hynny dylent ystyried yr adolygiad hwn a chanlyniad yr archwiliadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd. (PWYSIG – erbyn diwedd mis Mawrth 2019)

3.4.4 Yn ein barn ni, bydd penodi Cyfarwyddwr Portffolio annibynnol yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Ranbarthol yn well na'r trefniadau presennol i gefnogi prosiectau drwy gyfuniad o gyngor a her briodol, ac yn bwysig iawn, sicrhau bod gan bob aelod o bwyllgor wybodaeth dda. Bydd Prif Weithredwr Sir Gaerfyrddin yn ymddeol yn haf 2019. Mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o sefydlu Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac wedi ei chefnogi ers blynyddoedd. Rydym yn awgrymu felly bod ei ymadawiad ef yn gyfle i benodi Cyfarwyddwr Portffolio ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe â statws cyfartal â'r pedwar Prif Weithredwr Awdurdod Lleol. Rydym yn awgrymu y dylai'r Cyfarwyddwr Portffolio adrodd i'r Cyd-bwyllgor a bod yn gyfrifol yn ei dro am dîm y Swyddfa Ranbarthol (Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol ag Argymhelliad 1 uchod). Byddai angen i 'fanyleb y person' ar gyfer Cyfarwyddwr Portffolio o'r fath gael ei ystyried yn ofalus gan y Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Strategaeth Economaidd. Yn amlwg, byddai arno angen sgiliau Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) cadarn a hanes o gyflawni rhaglenni cyhoeddus-preifat mawr. Byddai angen iddo hefyd gael ei barchu yn yr Awdurdodau Lleol, y Llywodraeth Ganol a'r Sector Preifat fel ei gilydd.

**Argymhelliad 5:** Dylid penodi Cyfarwyddwr Portffolio cyn Mai 2019 er mwyn sicrhau dilyniant i arweinyddiaeth Bargen Ddinesig Bae Abertawe a sicrhau bod y Byrddau'n cael cyngor awdurdodol annibynnol. (BRYS – erbyn diwedd Ebrill 2019)

3.4.5 Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei gweld gan lawer fel Rhaglen sy'n cynnwys cyfres o brosiectau digyfnewid wedi'u pennu ymlaen llaw â rhai perthnasoedd a dibyniaethau synergyddol o bosibl, sydd gyda'i gilydd yn sicrhau canlyniad (swyddi/gwerth ychwanegol gros). Y perygl â'r farn hon yw ei bod yn bosibl nad prosiectau y cytunwyd arnynt flynyddoedd yn ôl sy'n cynnig y rhagolygon gorau heddiw (neu yfory). Mae perygl i aros yn yr un fan a cholli cyfleoedd newydd. Byddem yn awgrymu y byddai'n well edrych ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe fel portffolio â rhaglenni (a phrosiectau) yn cael eu hadolygu'n gyson a chyllid yn cael ei symud i'r rhai y credir eu bod yn fwyaf tebygol o gyflawni'r canlyniad(au) cytunedig. Yn y senario hon byddem yn disgwyl i rai rhaglenni a phrosiectau unigol gael eu rhoi o'r neilltu wrth i raglenni eraill mwy haeddiannol gael eu nodi a'u blaenoriaethu. Mae hon yn broses iach. Gallai'r Bwrdd Strategaeth Economaidd chwarae rôl allweddol drwy chwilio am brosiectau newydd a'u nodi a chefnogi tîm Bargen Ddinesig Bae Abertawe i werthuso buddion perthynol. Yn gyffredinol, credwn mai'r dull hwn sy'n cynnig y cyfle gorau i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Byddem hefyd yn disgwyl i gystadleuaeth o'r fath sicrhau her gryfach i achosion busnes, a fyddai hefyd yn sicrhau mwy o ddiwydrwydd dyladwy a sicrwydd. Mae Penawdau'r Telerau'n caniatáu'r dull gweithredu hwn ond mae'r cyfle wedi cael ei fychanu.

**Argymhelliad 6:** Dylai Bargen Ddinesig Bae Abertawe gael ei rheoli fel Portffolio, ac nid fel prosiectau digyfnewid wedi'u pennu ymlaen llaw. (PWYSIG erbyn diwedd mis Mehefin 2019)

## 3.5 Achosion Busnes Bargen Ddinesig Bae Abertawe

3.5.1 Mae dau achos busnes, sef Yr Egin (Clwstwr Digidol Creadigol) a Glannau Abertawe, lle mae'n ymddangos bod y partïon yn agos at ddod i gytundeb. Ar ôl edrych yn fanwl iawn ar eu statws, yn ein barn ni maent yn addas i'r diben at ei gilydd, wedi cael eu cymeradwyo gan y Rhanbarth a'u cyflwyno'n ffurfiol i'r ddwy Lywodraeth (er ein bod yn deall eu bod wedi cael eu tynnu'n ôl oherwydd nad ydynt yn gyflawn ac y byddant yn cael eu hailgyflwyno).

3.5.2 Mae ein dealltwriaeth ni o statws presennol y ddau achos busnes hyn i'w weld yn y tabl isod:

| EITEM | ACHOS BUSNES LLAWN YR EGIN | ACHOS BUSNES LLAWN GLANNAU ABERTAWE |
|---|---|---|
| RHIF Y FERSIWN | V9.6 | V18 |
| DYDDIAD | 3 Awst 2018 | 28 Tach 18 |
| CYMERADWYO | Adolygiad Bwrdd Strategaeth Economaidd 8 Tach 18<br>Adolygiad Bwrdd y Rhaglen 22 Tach 18<br>Adolygiad y Cyd-bwyllgor 22 Tach 18 | Adolygiad Bwrdd Strategaeth Economaidd 8 Tach 18<br>Adolygiad Bwrdd y Rhaglen 22 Tach 18<br>Adolygiad y Cyd-bwyllgor 22 Tach 18 |
| ACHOS STRATEGOL | Cyflawn | Cyflawn |
| ACHOS ECONOMAIDD | Cyflawn | Cyflawn |
| ACHOS MASNACHOL | Cyflawn | Cyflawn |
| ACHOS ARIANNOL | Cyflawn | Cyflawn |
| ACHOS RHEOLI | Cyflawn | Cyflawn |
| GOGWYDD AT OPTIMISTIAETH | 10% ond yn ffigwr crwn iawn | 10% ond yn ffigwr crwn iawn |
| RHEOLI RISG | Amcangyfrif o 5x5 ond yn fwy ansoddol na meintiol | Amcangyfrif o 5x5 ond yn fwy ansoddol na meintiol |
| CYFLAWNRWYDD CYFFREDINOL | Croesgyfeiriadau yn wag<br>Elfennau templed ar goll<br>Dim IAAP | Dim lleoedd gwag amlwg, ond nid yw'n rhoi sylw i bob agwedd ar arferion gorau e.e. IAAP |
| ATODIADAU PWYSIG AR GOLL | Rhestr Buddion – gwelwyd Drafft | Rhestr Buddion – heb ei gweld |

3.5.3 Ar gyfer y ddau achos busnes hyn, y credwn bod cytundeb arnynt yn agos, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol sydd â'r awdurdod i 'wneud cytundeb' gyfarfod mewn un lleoliad, a gweithio gydag arbenigwyr priodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o bwys er mwyn dod i gasgliad yn fuan. Dylai'r cyfarfod hwn gael cadeirydd annibynnol a dylai'r Sefydliad Rhanbarthol gadw cofnodion, gan nodi'r cytundebau, y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, pwy sy'n gyfrifol am weithredu ac erbyn pryd. Mae angen bodloni cyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrifyddu i sicrhau rheoleidd-dra ariannol a phriodoldeb masnachol. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu y gellid gwneud hyn drwy ddefnydd gofalus a phriodol o Gymeradwyo gyda chafeatau (e.e. dull o ryddhau cyllid yn raddol wrth ddyfarnu cyllid blwyddyn ariannol 2018/19 Bargen Ddinesig Bae Abertawe a rhywfaint o gyllid blwyddyn ariannol 2019/20 o bosibl) ar yr amod bod Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth er mwyn sefydlu dull seiliedig ar ymarfer da, er enghraifft ar gyfer rheoli buddion, o fewn ffrâm amser penodol a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i Gyfrannau gwaith diweddarach. Byddem yn awgrymu y gellir gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â diffyg cydrannau pwysig ond technegol yn y bôn Achosion Busnes Pum Achos: yn enwedig lle mae'r arbenigedd a'r profiad yn nwylo'r ddwy Lywodraeth ar hyn o bryd (er enghraifft y dull o fonitro buddion gan

gynnwys creu swyddi cynaliadwy). Yn ogystal, gellid cysylltu'r dull o ryddhau cyllid yn y dyfodol â chyflawni argymhellion yr adroddiad hwn.

3.5.4 Yn fyr, dylid defnyddio dull cydweithredol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod bwriad Penawdau'r Telerau'n cael ei gynnal. Os nad yw'n bosibl cyflawni rhai elfennau o achosion busnes hyfyw fel arall cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, dylid rhoi sylw ar unwaith i'r posibilrwydd o ryddhau cyllid yn amodol. Byddai hyn yn digwydd wrth i bob parti gydweithio i ffurfio safbwynt cytunedig ar fodelu a monitro buddion.

**Argymhelliad 7:** Ar gyfer Yr Egin a Glannau Abertawe, y ddau achos busnes sy'n agos at gael eu cymeradwyo'n derfynol, dylai uwch swyddogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol geisio dod i gasgliad yn fuan er mwyn sicrhau bod cyllid yn gallu llifo yn ôl yr angen. (AR UNWAITH)

3.5.5 Mae Atodiad A yn edrych yn benodol ar asesiad y Timau Adolygu o'r gallu i gyflawni Canlyniadau arfaethedig Bargen Ddinesig Bae Abertawe a statws yr 11 rhaglen a phrosiect yn eu cyfanrwydd.

### 3.6 Y gallu i gyflawni Rhaglen Bae Abertawe yn y Dyfodol

3.6.1 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn frwdfrydig ynglŷn â Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i bobl yr ardal. Mae'r ddwy Lywodraeth yn dal yn gefnogol i'r Fargen. Er gwaethaf ein pryder, ynglŷn â diffyg arbenigedd a phrofiad y Swyddfa Ranbarthol o Reoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau, fel y nodwyd uchod, trawyd y Tîm Adolygu gan statws uchel y bobl hynny sy'n gyfrifol am gyflawni'r fargen yn llwyddiannus ac yn fwyaf arbennig y rhai sy'n ymwneud â'i datblygu a'i chefnogi yn ddi-dâl. Yn yr un modd, mae'r Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn ardal Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi dangos bod y gallu ganddynt i gyflawni prosiectau sylweddol: boed yn Awdurdodau Lleol dan raglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif neu Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid sy'n cael eu harwain gan y Llywodraeth; neu'n gynlluniau sy'n cael eu hysgogi'n lleol ac sy'n cynnwys nifer o wahanol ffynonellau cyllid a diddordebau. Mae gan Awdurdodau Lleol lawer o brofiad o gyflawni prosiectau seilwaith. Mae sefydliadau Iechyd ac Addysg hefyd wedi cyflawni cynlluniau seilwaith mawr ers blynyddoedd. Yr hyn nad oes ganddynt gymaint o brofiad ohono yw agweddau rhaglennol rheoli buddion hirdymor yn y rhaglenni trawsnewid y mae prosiectau seilwaith o'r fath yn eu galluogi. Mae'n bosibl mai dyma pam y mae rheoli buddion fel pe bai'n achosi problem iddynt.

3.6.2 Mae'r Tîm Adolygu yn credu y gall Bargen Ddinesig Bae Abertawe wireddu'r addewidion cyffredinol a nodwyd ym Mhenawdau'r Telerau ym mis Mawrth 2017, cyn belled bod ein hargymhellion yn cael eu dilyn. Mae'n amhosibl dweud a fydd y gweithgareddau hyn yn sicrhau'r budd economaidd llawn yr anelir tuag ato ac sy'n seiliedig ar y model economaidd gwreiddiol. Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cynnig cyfle i ddal i weithio mewn partneriaeth yn y rhanbarth ac ehangu hynny. Mae cyfle i ysgogi'r economi leol a chreu swyddi cynaliadwy. Mae gan yr wyth partner hanes da o adfywio ac adeiladu seilwaith ac mae ganddynt y gallu angenrheidiol i'w gyflawni. Nid yw'r cyllid gan y ddwy Lywodraeth yn fawr ond mae'n ddigon i wneud gwahaniaeth. Mae ei angen er mwyn meithrin hyder a sbarduno cyllid preifat a chydweithio. Mae budd mawr yn cael ei gynnig i bobl y rhanbarth er nad yw'r gwerth penodol wedi'i gadarnhau eto.

3.6.3 Er mwyn sicrhau'r budd y bwriadwyd iddi arwain ato, mae angen i Fargen Ddinesig Bae Abertawe gadw'i chydlyniant, sy'n wynebu nifer o risgiau. Er enghraifft: gallai cyfuniad o bryder ynglŷn â chyllid a'r pryder ynglŷn â'r Pentref Llesiant, sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd, arwain at golli hyder yn y Rhanbarth; neu gallai colli Awdurdod Lleol sy'n bartner allweddol fod yn niweidiol iawn i hyder partneriaid y tu allan i'r sector cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn, rhaid dangos cynnydd go iawn ac rydym yn awgrymu bod yr amser i gyfnewid negeseuon ebost ac achosion busnes diwygiedig wedi bod. Mae'n hollbwysig bod o leiaf rai prosiectau'n cael eu cymeradwyo eleni o safbwynt ariannol ac er mwyn meithrin hyder. Mae'r risg ariannol i'r ddwy Lywodraeth yn fach iawn oherwydd y ffordd y mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cael ei strwythuro a gall methiant i fodloni amodau penodol arwain at dynnu cyllid yn ôl. Mae rhai Awdurdodau Lleol eisoes mewn sefyllfa ariannol fregus, gan eu bod wedi benthyg arian i gychwyn prosiectau sydd mewn perygl, a gallai eraill golli ffrydiau cyllido hollbwysig os na fydd cyllid y Llywodraeth ar gael mewn pryd. Dylid anelu felly at ryddhau cyllid yn y flwyddyn ariannol hon.

## 3.7 Y Ffordd Ymlaen

3.7.1 Mae ein prif argymhellion wedi'u hamlinellu uchod, ond byddwn yn eu crynhoi yma mewn trefn gronolegol. Yr argymhelliad pwysicaf yw bod y Swyddfa Ranbarthol yn cael ei had-drefnu fel Swyddfa Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau ag arweinyddiaeth gref ac annibynnol.

3.7.2 Er mwyn dangos ymrwymiad y Llywodraeth yn y tymor byr rhaid i bawb allu gweld bod cyllid yn llifo. Rhaid canfod ffordd o sicrhau hyn ar yr un pryd â rheoli'r problemau a'r risgiau drwy gydweithio.

3.7.3 Yn y tymor canolig mae angen i'r partïon sy'n rhan o'r cytundeb barhau i gydweithio. Mae angen mwy o broffesiynoldeb ar y lefel Ranbarthol er mwyn sicrhau bod pob parti'n siarad yr un iaith. Mae'r ddau beth hyn yn mynd law yn llaw i raddau helaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud dechreuad pwysig drwy symud y cyfrifoldeb am Fargeinion Dinesig yng Nghymru i adran sy'n canolbwyntio ar gyflawni. Rhaid i'r Rhanbarth gamu ymlaen yn yr un modd a sicrhau bod gan y Swyddfa Ranbarthol yr awdurdod, y profiad a'r arbenigedd i negodi perthynas broffesiynol gref gyda'r adran honno a Gweinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU.

3.7.4 Rhaid rhoi sylw i bryderon ynglŷn â llywodraethu a sicrwydd. Rydym wedi gwneud nifer o gynigion a bydd angen ystyried y rhain gyda chanlyniad y gwahanol archwiliadau sy'n cael eu cynnal. Mae angen i bob parti gydweithio'n rhagweithiol er mwyn sicrhau bod proses yn cael ei datblygu a bod ymddygiadau'n galluogi pawb i fod yn hyderus ynglŷn â gallu'r Rhanbarth i reoli'r cyllid sylweddol sydd ar gael i'r Fargen Ddinesig. Credwn fod Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i had-drefnu sydd ag arweinyddiaeth broffesiynol ac annibynnol gref yn allweddol i hyn oherwydd y bydd yn darparu haen awdurdodol o sicrwydd a chefnogaeth i'r rhaglenni unigol ac i'r byrddau gwneud penderfyniadau. Bydd Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig yn rhoi strwythur i'r dull gweithredu ar gyfer sicrwydd. Wrth i'r hyder ddatblygu bydd hyn yn bodloni rhan helaeth o angen y ddwy Lywodraeth am sicrwydd a gallant dynnu'n ôl o'r manylion.

3.7.5 Yn y tymor hwy dylai Bargen Ddinesig Bae Abertawe geisio rhedeg y rhaglenni o fewn portffolio a nodi rhaglenni eraill ar ei gyfer drwy ddefnyddio'r Bwrdd Strategaeth Economaidd fel ffwlcrwm i drosoli buddion cadarnhaol i'r rhanbarth.

# A Hyder yn y Gallu i Gyflawni Canlyniadau Arfaethedig Bargen Ddinesig Bae Abertawe

A.1.1 Mae'r Atodiad hwn yn edrych yn benodol ar asesiad y Tîm Adolygu o'r gallu i gyflawni Canlyniadau arfaethedig Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn eu cyfanrwydd.

A.1.2 Canfu'r asesiad hwn nad oes Mandad Portffolio/Rhaglenni clir ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n nodi'r canlyniadau a geisir, dibyniaethau, llinellau amser, cyfyngiadau, rigiau ac ati. Y ddogfen debycaf i Fandad yw Penawdau'r Telerau (wedi'i llofnodi gan uwch arweinwyr gwleidyddol) sy'n rhestru'r 11 prosiect sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn awgrymu y byddai buddsoddiad disgwyliedig Bargen Ddinesig Bae Abertawe (Llywodraeth Ganolog, Llywodraeth Leol a Buddsoddiad Preifat) yn helpu i greu dros 9,000 o swyddi ychwanegol (h.y. 3% yn fwy na'r cyfanswm presennol o 302,000) ac yn helpu i wneud y gwerth ychwanegol gros £1.8 biliwn yn fwy. Mae Penawdau'r Telerau hefyd yn ymrwymo'r ddwy Lywodraeth i hyd at £241 miliwn o gyllid uniongyrchol dros 15 mlynedd ond nid ydynt yn dweud dim ynglŷn â'r proffil gwariant.

A.1.3 Gan fod canlyniadau swyddi newydd/gwerth ychwanegol gros Penawdau'r Telerau yn seiliedig ar yr Achosion Busnes Amlinellol Strategol/Achosion Busnes Amlinellol a oedd ar gael ar y pryd, ac mewn llawer o achosion nid oes dim wedi newid ynglŷn â phrosiectau unigol ers hynny, mae'n anodd i'r Tîm Adolygu eu gwrthddweud ar sail yr wybodaeth sydd ar gael.

A.1.4 Roedd pob parti yn cymryd risg strategol sylweddol pan lansiwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe heb i unrhyw waith Rheoli Portffolio/Rhaglenni/Prosiectau (P3M) gael ei wneud i sefydlu'r cynllun lefel uchaf (o'r brig i lawr), risgiau, problemau, cyfleoedd, buddion, adnoddau ac ati. Yr arfer gorau, sy'n cael i'w ddilyn gan nifer o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn cael ei gefnogi gan yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (IPA), fyddai cynnal asesiad strategol ffurfiol yn dod â'r rhai sy'n gyfrifol am bolisi a'r rhai sy'n gyfrifol am gyflawni at ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan mae 3 prosiect rhanbarthol, sy'n galluogi mewn egwyddor, ymhlith yr 11 prosiect: Seilwaith Digidol, Sgiliau a Thalentau a Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.

A.1.5 Nid yw'r Tîm Adolygu wedi gweld y modelau economaidd manwl ar gyfer pob un o'r 11 prosiect sy'n rhan o Fargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe ac felly nid yw mewn sefyllfa i wneud sylwadau ynglŷn â honiad Penawdau'r Telerau (yn seiliedig ar yr 11 Achos Busnes Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol), "*Mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn credu y bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i greu dros 9,000 o swyddi ychwanegol ac yn helpu i wneud y gwerth ychwanegol gros £1.8 biliwn yn fwy*".

A.1.6 Ffordd arall o asesu'r gallu i gyflawni yw mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny a defnyddio canllawiau'r IPA ar asesu Hyder Cyflawni ar gyfer pob un o'r 11 prosiect: asesu cyflawni ar sail pedwar dimensiwn Amser (o gymharu â'r Cynllun), Cost (o gymharu â'r Gyllideb), Cyflawni Buddion (h.y. Perfformiad) a Chynnydd rhaglennol. Nid oedd gwerthusiad o'r fath yn ymarferol o fewn cyfyngiadau amser yr adolygiad gan y byddai pob un o'r 11 prosiect a fyddai'n agos at gael cymeradwyaeth i'r achos busnes llawn yn ddarostyngedig i Adolygiad Gateway™ 3 diwrnod ar wahân gan dîm o 3 o bobl.

A.1.7 Nododd y Tîm Adolygu bod pob un o'r Achosion Busnes Amlinellol Strategol/Achosion Busnes Amlinellol yn ysgafn iawn o ran cynllunio manwl, rheoli risg/problemau a rheoli buddion; ond ni fyddai'n syndod yn y cyfnod cynnar hwn. Roedd yr Achosion Busnes Llawn a welwyd yn ystod

wythnos yr Adolygiad (Yr Egin a Glannau Abertawe) wedi gwella yn y cyswllt hwn er eu bod yn dal yn anaeddfed o ran rheoli buddion. Mae'r Tîm Adolygu wedi gweld Rhestr Buddion Ddrafft ar gyfer Yr Egin, sy'n ddechrau addawol, er bod rhagor o waith i'w wneud eto. Nid yw'r Tîm Adolygu wedi gweld Rhestr Buddion ar gyfer Glannau Abertawe. Mae'r gogwydd at optimistiaeth o @ 10% yn edrych yn fwy fel ffigwr wrth gefn yn hytrach nag asesiad Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi. Fodd bynnag, roedd y prosiectau hyn (a rhai prosiectau un Awdurdod eraill) yn symud yn eu blaen, er gwaethaf diffyg addewid o gyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar risg Partner y Prosiect, a thrwy hynny roeddent yn cadw at y llinellau amser arfaethedig er bod mwy o risg ariannol o ganlyniad i fwy o fenthyca (taliadau llog na chyllidebwyd ar eu cyfer a risg cost cysylltiedig). Yn gyffredinol, mae'r Tîm Adolygu yn credu y byddai Yr Egin a Glannau Abertawe mae'n debyg yn cael sgôr DCA 'Oren' sy'n nodweddiadol ar gyfer rhaglen drawsnewid economaidd sy'n cael ei galluogi gan seilwaith yng ngham esblygu achos busnes llawn. Byddai cydbwysedd y prosiectau yn Goch.